Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyflwyniad i'r Bwrdd am y Mesur Iaith

13 Rhagfyr 2011

Cymru'n Un

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Cadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg
- Cadarnhau hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau
- Sefydlu swydd Comisiynydd Iaith

Papur safbwynt y Bwrdd, 2006

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Hawliau ieithyddol - cymryd y cyfle i fantoli'r ddyletswydd i ddarparu gwasanaeth efo'r hawl i'w dderbyn
- Ar ôl degawd o gynlluniau iaith mae'r tir wedi ei fraenarau i gymryd y camau nesaf o ran sefydlu hawliau
- Rheoleiddiwr annibynnol
- Hyrwyddo gweinyddu dwyieithog o fewn cyrff cyhoeddus
- Anghyson yw gweithredu cynlluniau iaith - nid yw'n glir i'r cyhoedd beth y gallant ddisgwyl (wele, hefyd, sylwadau diweddar Prif Weithredwr y Bwrdd yn Golwg)
- Pennu'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol yng Nghymru

Yr eLCO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Cam cyntaf: gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol
- Angen fod yn hollol glir o ran pa rymoedd, dros bwy, sy'n trosglwyddo
- Y brif her oedd 'trosglwyddo' adran 6(1)(o) - ddim modd cynnwys geiriau amwys yr adran honno
- Cynnwys rhestr o fathau o gyrff yn yr LCO a oedd yn cynnwys pawb sydd â chynllun iaith, neu sydd o fewn gafael y Bwrdd
- Proses dyrys - rhai diffiniadau yn cynnwys, mewn theori, llawer o gyrff nad sy'n flaenoriaeth
- Yr egwyddor oedd i beidio camu nôl ac i sicrhau 'level playing field' mewn meysydd lle nad oedd yn bodoli eisoes - megis telegyfathrebu
- Yr eLCO yn fwy cyfyng o ran mathau arbennig o gyrff yng nghyswllt y mathau o ddyletswyddau y gellir ei gosod arnynt - megis telegyfathrebu
- Fe welwch gynnwys yr eLCO yn atodiadau 5 a 7 - sy'n trosglwyddo'r potensial i'r Mesur
- Yr eLCO hefyd wedi eithrio darlledu - sef eithrio unrhyw ddylanwad, diolch i'r Mesur, ar gynnwys rhaglenni – ond erys yn bosib gosod safonau ar gyrff darlledu o ran arwyddion, ysgrifennu at y cyhoedd ayb
- Mwy am yr eLCO yn hwyrach ymlaen

Polisi

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Hawliau - clir ac mor gyson â phosib pa bynnag corff sy'n delio 'da chi
- Hawliau i'r cyhoedd yn cyfateb i osod dyletswyddau ar gyrff
- Am i'r dyletswyddau cael grym a statws
- Wedi eu gosod ar gyrff, yn hytrach na rhywbeth wedi eu cynnig ganddynt, drwy gynllun iaith - ac wedi eu cymeradwyo gan Gynulliad Cymru
- Sicrhau ffocws ar wella a datblygu gwasanaethau
- Ceisio lleihau biwrocratiaeth yn y tymor hir (...ond amser a ddengys)

Safonau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Syniad syml?
- Troi “fe fyddwn yn eich ateb yn Gymraeg”...
- ...i “mae angen i chi ymateb yn Gymraeg”
- Troi “fe fyddwn yn dangos arwyddion dwyieithog”...
- ...i “mae angen i chi ddangos arwyddion dwyieithog”
- Dyma gychwyn datblygu’r syniad o safonau iaith

Effaith yr eLCO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Yr eLCO yn cynnwys yr hawl i herio dyletswyddau
- Hwn wedi llywio cynnwys y Mesur
- Fe fyddai'n bosib gosod "mae angen i chi ddangos arwyddion dwyieithog" ar wyneb y Mesur
- ...neu "yr hawl i dderbyn a chwblhau ffurflenni yn Gymraeg"
- ...neu "yr hawl i dderbyn gwasanaethau ffon cyhoeddus"
- Ond fe fydd hynny'n creu risg
- Pe fyddai corff yn herio'r ddyletswydd yn llwyddiannus, fe fydd angen newid y Mesur
- Gellir cynnwys dyletswyddau gyda risg isel:
- ...megis yr 'hawl i dderbyn ateb Cymraeg i lythyr Cymraeg'
- Ond ni fyddai'r hawliau'n ymestyn yn bell
- 'Mesur tila'?

Creu fframwaith

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Wedi ystyried cadw elfennau o gynlluniau iaith a'u hategu efo safonau cryf
- Creu dryswch?
- Felly: 'out with the old, in with the new'
- Wedi disgwyl Mesur go syml - ond yr angen i herio a'r angen i sicrhau consensws a llais democratiaeth wedi ychwanegu nifer o gymalau
- Y polisi'n datblygu wrth i'r broses eLCO ddigwydd
- Y Llywodraeth ddim am ddatgelu'r polisi o ran y Mesur oherwydd y risg o amharu ar daith yr eLCO
- Y broblem 'shrink wrapping'
- Risg i'r Senedd wrthod elfennau o bolisi'r Llywodraeth
- Y llywodraeth am gadw'r eLCO mor ben-agored â phosib

Y teulu o safonau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Gwasanaeth
- Polisi
- Hybu
- Gweithredu
- Cadw cofnodion

Y broses: mater o bolisi

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Sylwer: mae modd i Weinidogion wneud safonau heb dderbyn cyngor gan y Comisiynydd
- ...does dim byd yn eu rhwystro rhag defnyddio cymalau 26 hyd at 32 i bennu safonau
- Y polisi, fodd bynnag, yw disgwyl i'r Comisiynydd ymgynghori a chynnig argymhellion i Weinidogion

Y broses: cychwyn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Atodlenni 6 ac 8 yn rhestri'r cyrff - a'r math o gyrff - y gall y Comisiynydd ddisgwyl i ufuddhau i safonau
- Y broses yn cychwyn yn adran 62
- Hysbysiad rhagchwilio – i'w yrru at gyrff 14 diwrnod cyn cychwyn ymchwiliad safonau
- Proses pwysig – arfer da rhoi rhagrybudd iddynt fod ymgynghoriad pwysig ar fin digwydd. Cyfle iddynt baratoi

Ymchwiliadau safon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Adran 61: yn esbonio beth yw pwrpas ymchwiliadau safon
- Nifer o gwestiynau i'w ystyried – (ond ddim angen eu hateb i gyd, pob tro):
- a ddylai person fod yn agored i orfod cydymffurfio a safonau?
- pa fath o safonau dylai fod yn gymwysadwy i berson yn atodlen 6 (gwasanaeth / polisi / gweithredu ayb)?
- pa fath o wasanaethau dylai cael eu pennu ar gyfer person yn atodlen 8?
- pa wasanaethau a dylai fod yn benodol gymwys i berson?

Y broses ymchwiliadau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Adran 63 - beth sy'n rhaid i'r Comisiynydd ei wneud wrth gynnal ymchwiliad safon:
- rhaid i'r Comisiynydd ystyried a fydd safonau yn afresymol neu'n anghymesur
- angen ystyried atodlen 9: hyn i sicrhau fod y Comisiynydd yn ystyried y mathau o wasanaeth a rhestrir yn yr atodiad
- os yw person yn cyflenwi unrhyw un o'r mathau o wasanaeth yn atodlen 9, mae rhaid i'r Comisiynydd ystyried a fyddai'n rhesymol a chymesur pennu safonau gwasanaeth ar eu cyfer
- adran 63 hefyd yn rhestru efo pwy mae angen i'r Comisiynydd ymgynghori
- y person o dan sylw, neu grŵp o bersonau dan sylw (ee pob awdurdod lleol)
- y panel cynghori
- y cyhoedd (heblaw bod hynny'n amhriodol - ee efallai: ymgynghori ynglŷn â safon cadw cofnod)

Adroddiad safonau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Y Comisiynydd i baratoi adroddiad yn dilyn ymchwiliad safonau
- Beth yw casgliadau'r Comisiynydd - a'r rhesymau
- Os yw'r Comisiynydd o'r farn y dylai safonau fod yn benodol gymwys i berson - a bod y safonau heb eu pennu gan Weinidogion, rhaid nodi'r safonau hynny
- ee yn dilyn ymchwiliad i safonau'r sector telegyfathrebu, gall safonau o ran ateb llythyrau fodoli eisoes – ar ôl i Weinidogion eu pennu ar gyfer sectorau eraill. Bydd dim angen i Weinidogion creu safon newydd - dim ond awdurdodi'r Comisiynydd i ddefnyddio'r safon sy'n bodoli eisoes efo'r sector telegyfathrebu.
- Ond, gall y Comisiynydd argymell fod angen rhai safonau newydd, megis safonau'n ymwneud a rhyngwynebau ffon

Adroddiad safonau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Angen gyrru copi o'r adroddiad:
- i Weinidogion
- y Panel Cynghori
- y person, neu'r grŵp, o dan sylw
- at bob person a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad (felly ddim i bob aelod o'r cyhoedd)
- Fe fydd o gymorth i Weinidogion i gael derbyn adroddiad a fydd yn eu cynorthwyo i baratoi RIA ar gyfer pennu safonau drwy reoliadau.
- "RIAs must be completed for proposed legislation which could affect the public or private sectors, charities, the voluntary sector and the business sector.
- An RIA must be considered whenever changes to the law through subordinate legislation are being proposed and where costs or benefits could accrue".

Sylw dyladwy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Adran 66 yn nodi fod angen i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i adroddiad safonau gan y Comisiynodd
- Y geiriau ‘sylw dyladwy’ yn bwysig

Cyfarwyddo'r Comisiynydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Mae modd i Weinidogion i gyfarwyddo'r Comisiynydd i gynnal ymchwiliad safonau
- Rhaid i'r cyfarwyddid pennu'r person neu'r grŵp o bersonau o dan sylw
- Y rheswm fod y Gweinidog o'r farn fod angen ymchwiliad
- Fel arfer, y polisi yw osgoi defnyddio pwerau cyfarwyddo
- Angen i Weinidogion dalu sylw i annibyniaeth y Comisiynydd
- Pryd i'w defnyddio?
- Er enghraifft, Gweinidogion o dan bwysau gan y cyhoedd / pwysau gwleidyddol i wneud safonau ar gyfer person penodol, sydd ddim yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd. Gall ddweud, ym marn y Gweinidog, fod diddordeb amlwg gan y cyhoedd a galw am wasanaeth Cymraeg gan y person o dan sylw.
- DS; Nid oes modd i Weinidogion cyfarwyddo'r Comisiynydd yng nghyswllt rhoi hysbysiad cydymffurfio na gorfodi safonau na rhyddid (Adran 16).

Gwneud safonau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Gweinidogion fydd yn gwneud safonau - trwy broses cadarnhaol, felly fe fydd angen i'r Cynulliad eu trafod
- Fe fydd angen i'r Gweinidog ystyrid a yw am ymgynghori cyn gosod y rheoliadau
- Adrannau 28 i 32 yn esbonio mwy am y pum math gwahanol o safon
- ee safon cyflenwi gwasanaeth sy'n delio a
- cyflenwi gwasanaeth i berson
- delio efo person mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaeth i'r person hwnnw neu i drydydd person – er enghraifft, sicrhau fod awdurdod lleol ac awdurdod iechyd yn cydweithio er mwyn cynnig gwasanaeth Cymraeg i unigolion
- Yma mae sôn am 'sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg'
- Y bwriad polisi yw i'w gadael yn bosib trin y Gymraeg yn fwy ffafriol na'r Saesneg - rhesymau polisi tu cefn i hwn yn adlewyrchu'r awydd i warchod, ee, polisïau addysg sy'n rhoi ffocws clir ar ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardal
- ...ac yn adlewyrchu'r ffaith fod sefyllfa'r iaith yn cyfiawnhau ei thrin yn fwy ffafriol ar adegau

Ychwanegu at safonau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Adran 27 yn ychwanegu at yr hyn y gellir ei gynnwys mewn rheoliadau
- 27(1) yn gosod terfyn ar y math o wybodaeth y gall gofyn i berson ei gadw o dan safon cadw cofnodion
- ...fe fydd rhaid dangos fod cadw'r cofnod yn gallu helpu Gweinidogion neu'r Comisiynydd i arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur
- ee iawn i gadw cofnod o gwynion yn ymwneud a'r rhyddid i siarad
- neu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg gan bobl ifanc
- Ond annhebyg y bydd modd gofyn am wybodaeth ynglŷn â threuliau staff, tal Prif Weithredwyr ayb
- 27(2) yn ei wneud yn glir fod modd gwneud safonau, ee, cyflenwi gwasanaeth ar gyfer gwahanol weithgareddau (ee arwyddion, gohebiaeth)
- 27 (3) yn cynnig hyblygrwydd. Er enghraifft, bydd modd gwneud nifer o safonau'n ymwneud ag arwyddion.

Ychwanegu at safonau: 2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- 27 (4) (a) yn sicrhau y bydd modd gosod dyletswydd ar berson i baratoi strategaeth neu gynllun yn esbonio sut y byddent am ufuddhau a safon.
- Y polisi tu cefn i hwn oedd cynnig hyblygrwydd i'r Comisiynydd. Gyda rhai cyrff, a rhai safonau, mae'n bosib y bydd y Comisiynydd yn hapus i 'adael iddynt i fod' - gan ddisgwyl iddynt gydymffurfio a'r safon. Er enghraifft, disgwyl i gorff ddarparu ffurflenni yn Gymraeg o fewn amserlen benodol, neu i ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Gall y Comisiynydd benderfynu nad yw am weld cynllun neu strategaeth ar gyfer hwnna.
- Ar y llaw arall, o ran cyrff a phroffil uchel, efallai, gyda safonau yn ymwneud a darparu gwasanaeth i bobl ifanc, efallai, y bydd y Comisiynydd am wybod fod y cyrff yn cynllunio - yn cymryd y mater o ddifrif – a'i bod am ddwyn pwysau arnynt er mwyn helpu sicrhau eu bod yn cyrraedd y nod.
- 27(4)(b) eto, hyblygrwydd i'r Comisiynydd. Efallai y bydd am sicrhau fod canllawiau desg priodol ar gael gan rhai cyrff, er enghraifft o ran recriwtio a hyfforddi staff
- 27(4) (c) (d) a (f) i sicrhau fod cyrff yn casglu gwybodaeth ac yn ei ddarparu i'r Comisiynydd. Mae'n ychwanegu at safonau cadw cofnodon - ac yn helpu sicrhau y gall y Comisiynydd dderbyn wybodaeth am berfformiad cyrff.
- 27 (4) (e) i sicrhau fod y corff yn cynnal gwaith monitro (er enghraifft o'r defnydd o wasanaeth) a hefyd yn hyrwyddo'r ffaith fod gwasanaeth Cymraeg ar gael a fod croeso i'w ddefnyddio

Yr hawl i 'ddefnyddio'r safonau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Nifer o gymalau yn gosod amodau sy'n raid eu cyflawni cyn gellir gosod dyletswydd ar berson i ufuddhau efo safon
- Adran 25 yn eu crynhoi
- mae angen iddynt fod yn atodlen 5 a 6
- neu o fewn atodlen 7 ac 8
- mae hyn yn cadarnhau eu bod o fewn cymhwysedd yr eLCO
- mae'n rhaid bod y safon yn un y gellir ei osod ar berson
- os yw'r person yn atodlen 6, gall fod yn unrhyw un o'r 4 safon - cyflenwi, polisi, gweithredu a chadw cofnodion
- os yw'n un o Weinidogion Cymru, yn gyngor sir neu fwrdeistref, neu'n awdurdod parc cenedlaethol, gall hyn hefyd gynnwys safon hybu
- (ac mae modd, hefyd, i unrhyw berson cydsynio i ufuddhau a safon hybu)
- os yw'r person yn atodlen 8 (telegyfathrebu, bysiau, trenau ayb) dim ond safonau cyflenwi gwasanaeth a safonau cadw cofnodion y gellir eu gosod ar y person
- yn olaf, mae angen fod Gweinidogion wedi gwneud gorchymyn, o dan Adran 39, yn awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i berson sy'n ei wneud yn ofynnol iddo gydymffurfio a safon

Hyblygrwydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Mae Adran 41 yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion i wneud un safon, neu nifer o safonau, i fod yn gymwys i un person, dau neu mwy person, neu i grŵp.
- Er enghraifft, gall safon fod yn gymwys i asiantaeth y Goron, neu i nifer o asiantaethau y Goron. Neu gall safon fod yn gymwys i grŵp o bersonau, megis pob awdurdod lleol. Mae hefyd yn gwneud yn glir y gall Gweinidogion wneud gorchymyn sy'n gwneud safonau gwahanol yn gymwys i gyrff gwanhaol. Er enghraifft, gall wneud gorchymyn efo safon o ran arwyddion sy'n gymwys i awdurdodau lleol Cymru - a safon sy'n ymwneud a gwefannau sy'n gymwys i gyrff y Goron.
- Mae Adran 42 yn ategu Adran 63. Hyn i sicrhau fod Gweinidogion yn gwneud rheoliadau sy'n sicrhau fod pob safon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau atodlen 9 yn benodol gymwys i gorff
- ...os yw'r corff yn gwneud y pethau hynny
- ...heblaw bod adroddiad safonau'r Comisiynydd wedi adrodd na fydd hynny'n rhesymol neu'n gymesur, neu fod y Gweinidog yn meddwl na fydd hynny'n rhesymol neu'n gymesur
- e.e. efallai bod corff yn delio 'da'r cyhoedd dros y ffon - ond fod y corff wedi ei leoli tu allan i Gymru
- Mae angen adran 42(3) (a) a (b) wedi eu cynnwys gan y gall y Gweinidog wneud safon heb dderbyn adroddiad gan y Comisiynydd.
- ...ac mae adran 42 (4) yn sicrhau fod modd ychwanegu safonau sy'n ymwneud a mathau eraill o weithgareddau i'r rheoliadau (hynny yw, nid yw atodlen 9 yn hollol gynhwysfawr)

Gweinidogion y Goron

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Mae Adran 43 yn gosod cyfyngiadau ar y pŵer i wneud safonau'n benodol gymwys
- Hyn yn cynnwys y ffaith na ellir gwneud rheoliadau i wneud safonau yn benodol gymwys i unrhyw un o Weinidogion y Goron oni bai fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio.
- Nid yw hyn yn cynnwys Gweinidogion Cymru - sydd wedi eu rhestri ar wahân yn atodlen 6
- Hynny'n adlewyrchu'r deal gwleidyddol adeg paratoi'r Mesur
- Y disgwyl yw mai Ysgrifennydd Cymru fydd yn gweithredu ar ran Gweinidogion y Goron - ac yn cydlynu'r broses ar draws Whitehall wrth ystyried y mater
- Gan eu bod wedi cytuno i gynnwys hwn y Mesur - mae 'na ddisgwyliad y byddent yn cytuno i Weinidogion Cymru wneud safonau'n benodol gymwys i Weinidogion y Goron
- Fe fydd yn fater i ni eu darbwyllo fod y safonau'n rhesymol a chymesur - gan, o bosib, cyfeirio at y cynlluniau iaith sydd eisoes wedi eu datblygu gan nifer ohonynt
- Wedi iddynt gydsynio fe fydd modd eu trin fel unrhyw gorff arall o dan y Mesur
- Sefyllfa cryfach, o'i gymharu â deddf 1993

Defnyddio'r safonau - hysbysiad cydymffurfio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Unwaith fod Gweinidogion wedi gwneud gorchymyn o dan adran 39 fe fydd modd i'r Comisiynydd yrru hysbysiad cydymffurfio at y personau sydd o dan sylw yn y gorchymyn
- Mae angen i'r hysbysiad gyfeirio at y safonau perthnasol
- ...a'i gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio gyda'r safonau
- Mae hyblygrwydd yn adran 44 i ofyn i gorff cydymffurfio efo safon mewn rhai amgylchiadau yn unig, neu rai ardaloedd yn unig (ee gellir gofyn i gorff sydd â swyddfeydd yng Nghymru a thu hwnt i ufuddhau a safon sy'n ymwneud a derbynfeydd dim ond yn ei swyddfeydd yng Nghymru)
- Gellir hefyd gofyn i gyrff gydymffurfio efo gwahanol safonau ar adegau gwahanol (ee cydymffurfio efo safon sy'n ymwneud ag arwyddion newydd o fwn chwe mis, ac ufuddhau efo safon yn ymwneud a gwefan y corff o fewn blwyddyn)
- Rhaid i'r Comisiynydd hefyd rhoi copi o unrhyw god ymarfer perthnasol i'r person a rhoi gwybod i'r person am yr hawl i herio'r safon

Diwrnod gosod / ymgynghori eto?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Ar gyfer pob safon, fe fydd angen i'r Comisiynydd pennu diwrnod gosod
- Mae disgwyl i'r corff cydymffurfio a'r safon o'r diwrnod gosod ymlaen
- Ni all diwrnod gosod fod yn llai na chwe mis ar ôl y diwrnod a roddir yr hysbysiad cydymffurfio
- Hyd nes bod corff yn ddarostyngedig i gydymffurfio a safon, mae rhan 2 Deddf Iaith 1993 – cynlluniau iaith - dal yn gymwys i'r person hwnnw (Adran 144).
- Mae Adran 47 yn cyfeirio at ymgynghori - ond nid oes angen ymgynghori os yw'r Comisiynydd yn fodlon fod y person eisoes wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriad
- Felly, os oedd y person wedi derbyn gwahoddiad i ymateb i ymchwiliad safonau, nid oes angen ymgynghori eto
- Ond os, er enghraifft, ei fod yn gorff newydd, wedi ei sefydlu ers yr ymchwiliad safonau, yna fe fydd angen ymgynghori.

Contractwyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Mae Adran 48 yn adlewyrchu'r ffaith fod atodlen 8 yn cynnwys personau sy'n darparu gwasanaethau ar ran corff arall (contractwyr)
- Mae'n sicrhau:
- nad oes modd gosod safon ar y contractwr pe na fyddai disgwyl i'r awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio a hi
- fod y contract heb ei gytuno cyn diwrnod gosod yr awdurdod cyhoeddus
- fod dim disgwyl i'r contractwr ufuddhau a'r safon cyn y bydd disgwyl i'r awdurdod cyhoeddus ufuddhau a'r safon
- Mae adrannau 49 a 50 yn galluogi'r Comisiynydd i amrywio neu ddirymu hysbysiad cydymffurfio
- Unwaith mae diwrnod gosod person wedi cyrraedd, mae angen i'r Comisiynydd gyhoeddi'r hysbysiad cydymffurfio
- Ond os oes her yn erbyn un neu fwy o'r safonau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd wneud hynny'n glir

Yr hawl i herio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Mae modd i berson herio dyletswyddau dyfodol (hynny yw, nad yw am ufuddhau efo safon) neu ddyletswydd bresennol (hynny yw, nad yw bellach yn meddwl fod safon yn rhesymol neu'n gymesur - ee os yw'r tîm cyfieithu wedi gadael ar ôl ennill y loteri)
- Yn y ddwy achos, mae angen i'r person ddangos fod yr angen i gydymffurfio a safon yn afresymol neu'n anghymesur
- Os yw'r Comisiynydd yn cytuno, mae angen iddi hi ddirymu'r hysbysiad, dirymu'r hysbysiad a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd, neu amrywio'r hysbysiad
- Os yw'r Comisiynydd yn anghytuno efo'r person, mae modd i'r person apelio i'r Tribiwnlys
- Felly mae angen Tribiwnlys yn ei le, gyda'r aelodau wedi eu hyfforddi, a gyda'i rheolau yn barod ayb, cyn i'r Comisiynydd yrru ei hysbysiad cydymffurfio cyntaf
- Os yw'r Tribiwnlys yn cytuno efo'r person, fe fydd angen i'r Comisiynydd i ddirymu'r hysbysiad, dirymu'r hysbysiad a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd, neu amrywio'r hysbysiad
- Gall y person neu'r Comisiynydd apelio penderfyniadau'r Tribiwnlys i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad; er enghraifft camddehongli'r Mesur?

Codau ymarfer

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- I'w cyhoeddi gan y Comisiynydd o dan adran 68
- Canllawiau ymarferol am ofynion safonau
- Angen i'r Comisiynydd ymgynghori am gynnwys y codau efo personau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio ar safonau a'r panel cynghori
- Angen cydsyniad Gweinidogion cyn eu dyroddi, adolygu neu dynnu'n ôl
- Gellir cyfeiria at y codau er mwyn helpu'r Comisiynydd i benderfynu a yw person wedi methu cydymffurfio a safon
- Mater i'r Comisiynydd a'r Gweinidog i ystyried y balans rhwng cynnwys safonau a chynnwys cod ymarfer

Arwyddion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Er enghraifft, arwyddion dwyieithog
- yr un ansawdd
- mor ddarllenadwy â'i gilydd
- un arwydd neu dwy?
- ochr yn ochr
- yr un mor amlwg
- y Gymraeg uwchben y Saesneg?
- y Gymraeg ar y chwith?
- sicrhau cywirdeb
- diffinio beth yw arwydd (electronig, dros dro, arwydd 'allan o wasanaeth' ar beiriant....)
- amserlen cael gwared ag arwyddion uniaith Saesneg

Arwyddion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- defnydd lliwiau
- ffontiau addas
- Faint o'r rhain sydd i fynd i mewn i'r safon - a faint i'r cod ymarfer?
- A fyddai modd gosod y cyfan mewn safon?
- Manteision - safon clir, dim amheuaeth o ran disgwyliadau. Gorfodi'n haws.
- Anfanteision - safon mwy cymhleth - yn gallu bod yn anoddach i'w paratoi? Mwy o bwyntiau i'w trafod gan y Cynulliad - mwy o le i gytuno ac anghytuno? Anoddach i ddiweddaru safon o'i chymharu â diweddaru cod ymarfer? Gorfodi'n anoddach.
- Hefyd yn fater i'r Comisiynydd ystyried a yw am ymgynghori ar safonau a chodau ymarfer efo'i gilydd
- Manteision - pawb yn gliriach o ran y disgwyliadau?
- Anfanteision – amser i baratoi popeth?
- Gellir gofyn cwestiwn tebyg yng nghyswllt polisi gorfodi'r Comisiynydd.

Gorfodi

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Adran 71 yn gosod allan y materion y gall y Comisiynydd ymchwilio iddynt
- methiant i ufuddhau a safon
- methiant i ufuddhau efo gofyniad i baratoi cynllun gweithredu neu gymryd camau (yn dilyn ymchwiliad i dorri safon)
- Gelwir y cyfan yn ‘ofyniad perthnasol’
- Ddim ond angen i’r Comisiynydd ‘amau’ fod person wedi methu a chydymffurfio efo safon – does dim angen derbyn cwyn cyn gwneud ymchwiliad

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Angen i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw'r person wedi methu a chydymffurfio
- Cyn gwneud ei phenderfyniad terfynol, mae angen i'r Comisiynydd ymgynghori efo pob person sydd â diddordeb a dangos iddynt gopi drafft o'r hysbysiad penderfynu a'i adroddiad
- angen paratoi adroddiad a hysbysiad penderfynu